**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TRWYDDEDU 2003**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 11 Medi 2018 am 4.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu 2003 Aelodau oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd L Jones |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd P Howe |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
PC Whittle - Heddlu De Cymru

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd R Lewis

**1 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**2 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**3 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor. Roedd yn adroddiad ar faterion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, ynghyd â materion ategol sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Adroddodd y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro (TEN), a hynny'n bennaf oherwydd adeg y flwyddyn a'r cyfnod hir o dywydd braf.

Cafodd yr aelodau wybod hefyd fod un cais wedi ei wrthwynebu yn ystod y cyfnod yma, sef Cwmdare Stores, ac un adolygiad wedi ei gyflwyno gan y Swyddfa Gartref, lle penderfynodd yr Aelodau ddiddymu'r drwydded.

Adroddodd y swyddog am ganlyniad apêl a gafodd ei hystyried yn ystod y cyfnod, sef Domino's yn Nhrefforest, lle'r oedd yr apelydd wedi gwrthwynebu penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Cafodd yr aelodau wybod fod yr apêl wedi'i chytuno allan o'r llys a bod y Drwydded wedi'i chaniatáu i'r apelydd ond gyda llai o oriau nag yn y cais gwreiddiol.

Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at adran 4.3 o'r adroddiad lle mae arolygiadau o eiddo a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Roedd yn bleser dysgu bod 89% o'r adeiladau a oedd wedi'u harolygu yn cydymffurfio'n fras o'i gymharu â'r 80% yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol.

Cafodd yr Aelodau wybod y bu cynnydd yn nifer y cwynion a dderbyniom yn ystod y cyfnod a bod y rhain yn tueddu i fod mewn perthynas â phroblemau sŵn o ganlyniad i'r tywydd braf.

Cyflwynodd y Swyddog drosolwg i'r Pwyllgor o'r gwaith a gafodd ei gyflawni gan y carfanau Trwyddedu ar y cyd â charfanau Trwyddedu'r Heddlu ledled ardaloedd Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái yn ystod y cyfnod. Siaradodd y swyddog am fentrau cadarnhaol sy wedi'u rhoi ar waith fel Operation Malpas yng Nghwm Rhondda a'r 'Ap Sŵn' yn ardal Taf-elái a oedd wedi gweld canlyniadau cadarnhaol.

Dywedodd y Swyddog fod cyfarfodydd 'Pubwatch' yn cael eu mynychu'n rheolaidd ymhob ardal, ond gofynnodd a fyddai modd i Aelodau gynorthwyo i ymgysylltu â thrwyddedwyr yn ardaloedd Aberpennar ac Aberdâr gan fod presenoldeb wedi gostwng dros amser.

Soniodd y swyddog am y problemau a gododd mewn perthynas â'r achlysur 'Bounce Run' a oedd i'w gynnal ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd. Eglurodd, oherwydd amryw faterion, doedd dim caniatâd i agor yr ardal drwyddedig ond cafodd yr Aelodau gadarnhad bod awdurdodau amrywiol wedi trafod ar ôl yr achlysur i sicrhau bod y materion hyn ddim yn codi yn y dyfodol.

Cafodd aelodau eu cyfeirio at adran 4.5 o'r adroddiad lle mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaeth Alcohol Gymunedol Pontypridd (CAP) yn cael ei darparu. Yn dilyn cwestiynau, eglurodd y swyddog y byddai'r mentrau cadarnhaol yn cael eu monitro gan arolygon a thrwy weithio gydag ysgolion gyda'r nod o sicrhau eu bod yn dod yn brosiectau tymor hir ar gyfer y dyfodol.

Cafodd yr Aelodau eu diweddaru ynglŷn â'r Gorchymyn Diogelu Mannau

Cyhoeddus newydd a ddaeth i rym ar 1 Medi. Gofynnodd Aelodau gwestiynau am bwerau'r Gorchymyn, gyda'r swyddog yn cadarnhau bod canol trefi Aberdâr a Phontypridd bellach wedi'u diffinio fel parthau gwahardd sylweddau meddwol ond bod modd cymryd alcohol oddi wrth y cyhoedd mewn ardaloedd lleol eraill, os yw'r unigolion sy'n meddu arno'n achosi neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Sicrhaodd y Swyddog yr Aelodau fod yr heddlu yn gwbl effro i hyn er mwyn gorfodi'r deddfau'n briodol ond os oedden nhw'n teimlo ei fod yn angenrheidiol, byddai modd darparu diweddariad.

Siaradodd un Aelod am yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro a gofynnodd a fyddai modd i Aelodau Lleol gael rhybudd o flaen llaw o unrhyw achlysuron arwyddocaol a fyddai'n arwain at faterion sŵn i gymdogion. Esboniodd y swyddog, er nad oes gofyniad statudol i swyddogion ymgynghori ag Aelodau Lleol, roedd cyfle i adolygu prosesau.

Yn dilyn cwestiynau gan y Pwyllgor, a'r ymatebion gan y swyddogion perthnasol, **PENDERFYNWYD**:-

a) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;
b) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gamblo 2005.**

## 5 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 6 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD 20.04.18 - 26.08.18

Rhoddodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Pwyllgor am drwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod 20 Ebrill 2018 tan 26 Awst 2018.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.55 pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**